| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD** | 1af o Fawrth 2012 |
| **TEITL** | Bidiau Refeniw a Chyfalaf 2012/13 |
| **PWRPAS** | Mabwysiadu’r argymhellion parthed cyllido’r bidiau |
| **AWDUR** | Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Arweinydd y Cyngor |
| **ARGYMHELLIAD** | Cymeradwyo’r argymhellion parthed cyllido’r bidiau |

## 1. Cefndir

Fel rhan o’r broses allweddol o adnabod a chytuno blaenoriaethau a chyllideb y Cyngor ar gyfer 2012/13 mae’r Cyngor yn gwahodd bidiau refeniw a chyfalaf. Pwrpas y papur hwn yw adrodd ar ganlyniad gwaith blaenoriaethu’r bidiau hynny. Yn unol â’r fframwaith cynllunio busnes mae’r bidiau wedi eu hadnabod gan y gwasanaethau wrth iddynt ystyried eu blaenoriaethau a chynlluniau gwasanaeth.

Eto eleni, yn wyneb y sefyllfa ariannol ddychrynllyd o heriol, gwahoddwyd bidiau o dan y **categori anorfod** yn unig, sef “*gwariant anorfod i gadw gwasanaeth ar ei lefel bresennol neu ymateb i ofynion deddfwriaethol newydd sylweddol*”.

Mae’r adroddiad hwn yn ystyried bidiau a oedd yn cyd-fynd â’r diffiniad **anorfod** yn unig.

## 2. Y Broses Blaenoriaethu

Yn dilyn y gwahoddiad gwreiddiol, derbyniwyd bidiau refeniw cyfwerth a £3,281,503 (parhaol), a £121,638 (unwaith ac am byth), ynghyd a bidiau cyfalaf o £1,723,000.

Fel y gwelir ar y taenleni sydd ynghlwm, mae’r symiau yr argymhellir eu cyllido fel a ganlyn:

Bidiau Refeniw Parhaol – £1,713,896

Bidiau Refeniw unwaith ac am byth - £85,000

Bidiau Cyfalaf - £240,000

Amlinellir isod y prif gamau yn y broses ar gyfer blaenoriaethu'r bidiau:-

- asesiad agoriadol o'r holl fidiau a gyflwynwyd gan y Grŵp Arweinyddiaeth, er sicrhau mai dim ond bidiau anorfod oedd yn cael ystyriaeth.
- yr Adran Strategol a Gwella, yn seiliedig ar y manylion a gyflwynwyd a thrafodaethau pellach gyda'r gwasanaethau, wedi paratoi argymhellion ac adroddiad drafft o ran blaenoriaethu a chyllido'r bidiau
- y Grŵp Arweinyddiaeth wedi ystyried papur yr Adran Strategol a Gwella a chytuno argymhellion.
- Ymgynghori â'r Grŵp Busnes. 'Roedd y Grwp Busnes yn cytuno â'r argymhellion a gyflwynwyd.
- Prif Bwyllgor Craffu a Bwrdd y Cyngor wedi ystyried a derbyn argymhellion y Strategaeth Ariannol, y blaenoriaethau a ffynonellau cyllido yn eu cyfarfodydd yn Chwefror 2012.
- Y Cyngor Llawn i ystyried a mabwysiadu'r Strategaeth Ariannol, y blaenoriaethau a ffynonellau cyllido yn eu cyfarfod ar 1af Mawrth 2012.

**3. Argymhellion.**

**A. Bidiau Refeniw.**

Gofynnir i'r aelodau ystyried y dogfennau canlynol ynghlwm:

(i) yr argymhellion parthed cyllido'r bidiau sydd yn cael eu hystyried yn anorfod.- **Atodiad A.**

(ii) y rhestr o'r bidiau na argymhellir eu cyllido o fewn y gyfundrefn bidiau anorfod am y rhesymau a nodir - **Atodiad C**

**B. Bidiau Cyfalaf.**

Mae'r dogfennau canlynol ynghlwm:

(i) Rhestr o'r bidiau a dderbyniwyd, a'r argymhellion parthed cyllido'r bidiau - **Atodiad B.**

**Barn yr Aelod(au) Lleol**

Dim yn fater lleol

---

B. **Barn y Swyddogion Statudol**

**1. Y Prif Weithredwr**

“Fel y mae’r adroddiad yn nodi, mae’r argymhellion sydd gerbron wedi bod yn destun gwaith herio a thrafod manwl iawn. Rwy’n eu cymeradwyo.”

2. **Swyddog Monitro**

“Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb”

3. **Prif Swyddog Cyllid**

“Cadarnhaf y bu herio trylwyr wrth brosesu’r bidiau gerbron er mwyn sicrhau mai dim ond gofynion cwbl anorfod argymhellir eu cyllido, ac i sicrhau fod gwerth y bidiau yn amcangyfrifon cywir o gost dygymod â’r gofynion ychwanegol ar y gwasanaethau perthnasol.

Mae’r herio effeithiol o’r bidiau refeniw sydd yma eleni wedi arwain at argymell caniatáu cyfanswm sy’n llai na 1% o gyllideb refeniw y Cyngor.

Mae’r cyfanswm bidiau cyfalaf sydd yma yn llawer llai na’r rhaglen gyfalaf llawn, gan fod y rhaglen yn cynnwys cynlluniau wedi’u hariannu o grantiau penodol sylweddol a chynlluniau sy’n ymrwymiadau o flynyddoedd blaenorol.”

---

C. Papurau Cefndir

---

CH. Goblygiadau Polisi